

SWYDDI CYNGOR
RHONDDA CYNON TAF
COUNCIL JOBS

RHONDDA CYNON TAF







# Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr

# Candidate Information Pack

**CYNNWYS**


1. **Llythyr Croeso i Ymgeiswyr**

2. **Y Cyngor**

   **2.1 Diwylliant**
   **2.2 Cydweithredu**
   **2.3 Trosolwg - Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

3. **Swyddogaeth y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

   **3.1 Hysbyseb**
   **3.2 Disgrifiad Swydd a Manyleb Person**
   **3.3 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**

4. **Amserlen y Broses Benodi**

5. **Pam gweithio i Gyngor Rhondda Cynon Taf?**

6. **Byw yn Rhondda Cynon Taf**

## 1. LLYTHYR CROESO I YMGEISWYR

Annwyl Ymgeisydd,

**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

Rydw i wrth fy modd eich bod chi wedi gofyn am ragor o wybodaeth am y swydd gyffrous a hollbwysig yma yn y Cyngor.

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn awdurdod lleol ac iddo uchelgais, a'i Aelodau a'i swyddogion yn ymroddedig i gynnal gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel sy'n hollbwysig i bobl leol.


A chyda heriau'n wynebu byd llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus yn gyffredinol, mae'r Cyngor â'i sylw ar barhau â'i ddull cadarn o reoli arian cadarn, ei ethos o wella trwy'r amser, ynghyd â chwilio am ffyrdd arloesol ar gyfer cynnal gwasanaethau gyda sefydliadau partner.

Mae ein Cynghorwyr a'n Swyddogion yn ymroi i wynebu'r heriau yma'n uniongyrchol trwy gyfrwng yr agwedd a phenderfyniad strategol sydd eu hangen i sicrhau bod Rhondda Cynon Taf a'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu yn parhau i wella a darparu'r hyn y mae ein cymunedau eu hangen.

Dros y degawd diwethaf, bu'r Cyngor yn cael effaith fawr o ran gwella cyfleoedd bywyd pobl leol ac mae wedi trawsnewid ei wasanaethau, drwy'r rhaglen fuddsoddi fwyaf yng Nghymru. Mae hyn wedi cynnwys buddsoddi mewn ysgolion newydd, parciau, meysydd chwarae, cyfleusterau chwaraeon a hamdden, seilwaith y priffyrdd, Cartrefi Gofal Ychwanegol newydd, llety byw â chymorth newydd, miloedd o dai cymdeithasol newydd, a gwelliannau sylweddol i ganol ein trefi.

Mae gyda ni garfan gref o reolwyr a chronfa wych o staff dawnus a hyblyg yma yn Rhondda Cynon Taf sy'n mynd yr ail filltir yn gyson dros y Cyngor a'n cymunedau. Os ydych chi'n credu eich bod chi'n barod am yr her o weithio mewn Cyngor blaengar, arloesol a bywiog, yn credu'n gryf yng ngwerth gwasanaeth cyhoeddus a bod gyda chi agwedd gadarnhaol a gweithgar er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau strategol, byddwn i'n croesawu eich cais am y cyfle cyffrous yma.

Yn gywir,



**PAUL MEE,**
**PRIF WEITHREDWR**

## 2. Y CYNGOR

### 2.1 DIWYLLIANT

**Cynllun Corfforaethol y Cyngor**

**Mae'r Cynllun "Gweithio gyda'n Cymunedau" yn nodi 4 amcan llesiant a'r blaenoriaethau sy'n eu tanategu nhw.**

**Ein Hamcanion Lles:**

1. **POBL A CHYMUNEDAU** - Cefnogi a grymuso trigolion a chymunedau RhCT i fyw bywydau diogel, iach a chyflawn.
2. **GWAITH A BUSNES** - helpu i gryfhau a thyfu economi Rhondda Cynon Taf.
3. **BYD NATUR A'R AMGYLCHEDD** - RhCT gwyrdd a glân sy'n gwella ac yn gwarchod yr amgylchedd a byd natur.
4. **DIWYLLIANT, TREFTADAETH A'R GYMRAEG** – Cydnabod a dathlu gorffennol, presennol a dyfodol RhCT.

Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn nodi ein delfryd ar gyfer Rhondda Cynon Taf lle *'mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol.'*

Dim ond Cyngor sy'n cael ei redeg yn dda all ddarparu Ein Gweledigaeth, Amcanion Lles a blaenoriaethau. Mae hynny'n golygu Cyngor sydd â diwylliant sefydliadol cadarnhaol, sy'n gwerthfawrogi ei staff, sy'n rheoli ei adnoddau'n ddoeth ac sy'n ceisio gwella'n barhaus yr hyn a wnawn i gael yr effaith orau ar drigolion gan wynebu'r heriau rydyn ni'n eu hwynebu. Rydyn ni hefyd wedi nodi ein hymrwymiadau i drigolion, staff a phartneriaid yn y Cynllun.

Rhaid i'r holl Gynghorau yng Nghymru gydymffurfio â nifer o gyfreithiau sy'n llywio ein gwaith. Mae'r cyfreithiau yma'n cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sydd ymhlith pethau eraill, yn gofyn bod Cynghorau'n gosod Amcanion Lles. Mae'r Amcanion Lles sydd wedi'u nodi yn ein Cynllun Corfforaethol

wedi'u cynnwys er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Rhondda Cynon Taf.

Cynllun Corfforaethol y Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## 2.2 CYDWEITHREDU

Mae'r Cyngor yn ymfalchïo mewn cydweithredu'n effeithiol. Dyma enghreifftiau allweddol: Gweithio gydag eraill | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (rctcbc.gov.uk). Ar lefel rhanbarthol, y partneriaethau allweddol yw;

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf Morgannwg, sy'n cynrychioli sefydliadau partner yr ardal. Mae'i aelodaeth yn cynnwys Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf; Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful; Prif Weithredwr ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf; Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru; Cadeiryddion Cynghorau Gwirfoddol Sirol Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf; a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Prawf, a sefydliad Cyfoeth Naturiol Cymru;

- Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn dwyn ynghyd carfanau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, materion tai, y trydydd sector a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau integredig yn effeithiol yng Nghwm Taf Morgannwg. Mae Uned Comisiynu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn gweithio ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

- Mae Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg yn bartneriaeth statudol ag asiantaethau sy'n gyfrifol am ddiogelu plant ac oedolion mewn perygl yn ardal Cwm Taf Morgannwg. Mae'r Bwrdd yn sicrhau bod gan asiantaethau yn y rhanbarth drefniadau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod pobl o bob oed sy'n byw yn y rhanbarth yn cael eu diogelu rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu fathau eraill o niwed. Mae hyn hefyd yn golygu atal achosion o gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed rhag digwydd yn y lle cyntaf.

- Prifddinas-Ranbarth Caerdydd / Cyd-bwyllgor Corfforaethol De Ddwyrain Cymru – mae'r deg Cyngor yn Ne-ddwyrain Cymru wedi ymrwymo i'r Fargen Ddinesig gwerth £1.2 biliwn gyda Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru i gynyddu allbwn economaidd y rhanbarth. Trodd y cydweithrediad rhanbarthol i Gyd-bwyllgor Corfforaethol newydd ym mis Ebrill 2024 gyda chyfrifoldeb am gynllunio datblygu strategol, cynllunio trafnidiaeth rhanbarthol, a hyrwyddo lles economaidd ar draws y rhanbarth.

## 2.3 TROSOLWG - CYFADRAN ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT

Bod yn gyfrifol am adnoddau ariannol, personél a diriaethol y Gyfadran, gan gynnwys y meysydd allweddol canlynol:

- Gwasanaethau Gwella'r Ysgolion
- Gwasanaethau Cynhwysiant
- Moderneiddio Ysgolion
- Mynychu'r Ysgol (presenoldeb) a Lles
- Seicoleg Addysg
- Y Gwasanaethau Arlwyo
- Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr
- Materion Derbyn Disgyblion i'r Ysgol a Gwahardd Disgyblion
- Gwasanaeth Cerdd
- Unedau Atgyfeirio Disgyblion (UAD/PRU)
- Cyfarwyddwr Addysg Statudol

## 3. SWYDDOGAETH Y CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT

### 3.1 HYSBYSEB

**CYFARWYDDWR ADDYSG A GWASANAETHAU CYNHWYSIANT**

**CYFLOG: £113,745**

**‘GYDA'N GILYDD, ADEILADWN AR EIN LLWYDDIANNAU'**

Ydych chi am ymuno â sefydliad blaengar ac uchelgeisiol? Os ydych chi, dyma'r cyfle i chi. Mae Rhondda Cynon Taf yn Gyngor blaengar ac uchel ei gyflawniad, sy'n cynnal gwasanaethau ar gyfer poblogaeth o tua 240,000 o drigolion ledled Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Thaf-elái. Mae ein llwyddiant yn seiliedig ar hyrwyddo diwylliant o arloesi a meithrin hyder sydd wedi esgor ar syniadau newydd a mentrau uchelgeisiol ledled y Cyngor.

Yn dilyn ymddeoliad y Cyfarwyddwr presennol, mae cyfle bellach i chi ymuno â ni yn y llwyddiant hwn ac arwain Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant y Cyngor. Byddwch chi'n gyfrifol am gyllideb refeniw net o tua £37 miliwn, rhaglen gyfalaf tair blynedd o £72 miliwn, a 1,276 o staff nad ydyn nhw'n aelodau o'r ysgol. Byddwch chi'n gyfrifol am bob agwedd ar Wasanaethau Addysg a Chynhwysiant, gan roi cymorth a chefnogaeth i 111 o ysgolion a gweithlu o 4,594 yn yr ysgolion, gyda chyllidebau ysgol gwerth £212 miliwn. Byddwch chi'n goruchwylio buddsoddiad enfawr y Cyngor mewn cyfleusterau ysgolion modern ers 2014, ac mae'n bwriadu ei wneud yn y cyfnod hyd at 2033. Hyd yn hyn mae dros £505 miliwn wedi'i wario ar gyflawni cynlluniau ar draws Band A a Band B, gyda chamau datblygu cynnar yn y gyfres nesaf o naw prosiect. Mae pecyn ariannu pellach o £414 miliwn i gyflawni'r prosiectau newydd wedi'i gytuno mewn egwyddor, gyda chyllid ychwanegol wedi'i neilltuo ar gyfer y cyfnod hyd at 2033 a mentrau ariannu ategol eraill.

Rydyn ni o'r farn ein bod wedi creu carfan o uwch reolwyr sy'n llawn cymhelliant ac sydd â chyfoeth o brofiad a gwybodaeth leol. Bydd disgwyl i chi ddod â'ch dull arwain eich hun, eich creadigrwydd a'ch arloesedd i'r rôl yn rhan o'r garfan reoli brofiadol yma sydd wedi'i hen sefydlu. Byddwch chi'n derbyn cefnogaeth gadarn yn wleidyddol, yn ogystal ag ym maes rheoli gan Aelodau etholedig a phartneriaid sy'n deall cymhlethdod a phwysigrwydd ein gwaith. Rydyn ni am i chi chwarae eich rhan wrth gyflawni ein strategaeth wella, er mwyn sicrhau bod y Fwrdeistref Sirol yn parhau i symud ymlaen mewn ffordd sy'n cysylltu ac yn cefnogi ein pobl a'n cymunedau, a hynny trwy eu cadw'n ddiogel, yn iach a rhoi pob cyfle iddyn nhw ffynnu.

P'un a ydych chi eisoes yn Gyfarwyddwr neu'n chwilio am y cam nesaf yn eich gyrfa, bydd y rôl yma yn rhoi cyfle i chi adael eich ôl a chreu argraff go iawn. Os ydych chi am weithio gyda chydweithwyr ledled y Cyngor a gyda'n partneriaid i wella bywydau ein cymunedau, byddwn ni'n falch iawn o glywed gennych chi. Byddwch chi hefyd yn ymuno â charfan reoli uchelgeisiol o dan arweiniad y Prif Weithredwr, Paul Mee.

I gael rhagor o fanylion am y swydd yma a'r broses cyflwyno cais, ffoniwch James Eddison, Moxie People, ar 029 2280 2222 neu e-bostiwch james@moxiepeople.com

## 3.2 DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB PERSON

| | |
|---|---|
| **Cyfrifoldeb Swyddogaethol:** | Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| **Gwasanaeth / Adran:** | Cyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| **Teitl y Swydd:** | Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| **Gradd:** | Cyfarwyddwr – Lefel 1 |
| **Yn atebol i:** | Prif Weithredwr |
| **Maes cyfrifoldeb:** | Carfan Rheolwyr y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant |
| **Dyddiad y Disgrifiad:** | Medi 2025 |

### AMCANION ALLWEDDOL

- Cefnogi'r Prif Weithredwr a'r Cabinet wrth lunio a chyflawni agenda polisi strategol y Cyngor Bwrdeistref Sirol i gyflawni ei rôl yn arweinydd y gymuned, yn benodol yr hyn sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

- Darparu'r arweinyddiaeth a'r weledigaeth  angenrheidiol i gydlynu gwaith sy'n ymwneud â gwasanaethau allweddol y Gyfadran sy'n perthyn i'w gilydd, ac ysgogi staff i gyflawni i safon uchel a datblygu i'w llawn botensial.

- Bod yn "llysgennad" ar gyfer y Cyngor yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, a hyrwyddo ei ddylanwad.

### CYFRIFOLDEBAU PENODOL

**Yn gyfrifol am y canlynol:**

Adnoddau ariannol, personél a diriaethol/ffisegol y Gyfadran, gan gynnwys y meysydd allweddol canlynol:

- Swyddogaeth Statudol y Cyfarwyddwr Addysg
- Gwasanaethau Gwella'r Ysgolion
- Gwasanaethau Cynhwysiant
- Moderneiddio Ysgolion
- Mynychu'r Ysgol (presenoldeb) a Lles
- Seicoleg Addysg
- Y Gwasanaethau Arlwyo
- Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr
- Materion Derbyn Disgyblion i'r Ysgol a Gwahardd Disgyblion
- Gwasanaeth Cerdd
- Unedau Atgyfeirio Disgyblion (UAD/PRU)

## CYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

### Rheoli Strategol

- Gwneud cyfraniad gweithredol a chadarnhaol i gynlluniau strategol a pholisïau'r Cyngor, yn ogystal ag i'r broses o weithredu newid diwylliannol a datblygiad sefydliadol. Hwyluso creu diben cyffredin ledled y sefydliad, drwy waith grŵp a gweithio'n aelod o Uwch Garfan y Rheolwyr.

- Gweithredu agenda "moderneiddio" y Cyngor, trwy gefnogi'r prosesau democrataidd a sut y mae dod i benderfyniadau, a hynny ar bob lefel a thrwy hyrwyddo cyfranogiad gweithredol pobl leol ym materion y Cyngor.

- Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gydag aelodau etholedig, gan ddeall eu safbwyntiau, a chroesawu a pharchu dulliau craffu a herio.

- Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau yn unol â safonau proffesiynol, gan gefnogi penderfyniadau gwleidyddol sy'n cael eu llywio'n llawn gan gyngor diduedd, gan sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol yn cael ei chyflwyno'n glir ac yn wrthrychol. Cynnal prosesau 'gwneud penderfyniadau' tryloyw ac effeithiol sydd er budd gorau ein trigolion, busnesau a chymunedau.

- Chwarae rhan ragweithiol mewn perthynas â chyfrifoldeb cyfunol Uwch Garfan y Rheolwyr i osod cyllideb gytbwys.

- Pennu ffyrdd creadigol ac arloesol o ddiwallu anghenion y Cyngor mewn perthynas â newid a gwella gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig.

- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal o ran cyflawni gwasanaethau ac o ran cyflogi staff.

### Safonau Gwasanaeth a Rheoli Cyflawniad

- Sicrhau cydlyniad wrth gynllunio a chyflenwi gwasanaethau a'u bod yn cydymffurfio â phrosesau gwella parhaus a chraffu'r Cyngor.

- Paratoi, gweithredu, monitro a gwerthuso Cynlluniau Hunan-asesu ar gyfer pob maes gwasanaeth/adran; gan nodi, dadansoddi ac ymateb i dueddiadau, patrymau galw a materion cyflawniad yn ôl yr angen.

- Sicrhau bod darparu gwasanaethau a chynllunio yn cael eu hystyried yn erbyn Dangosyddion Cyflawniad cenedlaethol a lleol, ac yn cyfrannu at y targedau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor.

- Rhoi trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cytuno ar dargedau personol ar gyfer uwch aelodau o staff ac ar gyfer arfarnu ac adrodd ar eu cyflawniad yn rheolaidd.

- Nodi a darparu cyfleoedd ar gyfer diwallu anghenion datblygiad proffesiynol uwch reolwyr y Gyfadran.

- Bod yn atebol am gyflawniad personol, drwy fodloni targedau personol ac ymgymryd â rhaglenni parod ar gyfer datblygiad proffesiynol.

## Rheoli Adnoddau

- Adolygu a gwerthuso gofynion y Gyfadran o ran adnoddau, o ran cynnal gwasanaethau hanfodol ac arwain gwelliannau a datblygiadau angenrheidiol.

- Sicrhau rheoli effeithlon a llawn dychymyg o adnoddau'r Gyfadran, (pobl, cyllid, eiddo a gwybodaeth), i gefnogi targedau y cytunwyd arnyn nhw ar gyfer darparu a gwella gwasanaethau'r Cyngor.

- Arddangos dull entrepreneuraidd o ran nodi a dilyn llwybrau'r holl ffynonellau ychwanegol o gyllid neu adnoddau eraill y mae modd eu defnyddio yn ychwanegol at y rhai mae'r Cyngor yn eu darparu, gan sicrhau bod unrhyw gamau yn bodloni gofynion penodol o ran cyfrifeg neu werthuso a bod yr adnoddau ychwanegol yn cael eu sefydlu'n llawn yn rhan o brosesau'r Cyngor.

- Gweithio'n agos gydag asiantaethau a phartneriaid eraill i wella sut mae cyllidebau'n cael eu gwario ac mae adnoddau yn cael eu dyrannu.

## Cydweithio a Chyfathrebu

- Datblygu a chynnal rhwydweithiau a phartneriaethau ehangach y mae angen i'r Cyngor gyflawni ei swyddogaeth yn Arweinydd Cymuned ac i wella'i wasanaethau i gymunedau lleol.

- Mynd ati i feithrin a datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r holl asiantaethau a phartneriaid lleol, gan gynnwys y sector gwirfoddol a busnesau lleol, yn ogystal â chyrff statudol eraill ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

- Cyfleu gweledigaeth, strategaeth a phrosesau'r Cyngor mewn modd effeithiol, yn fewnol i'r staff ac yn allanol i asiantaethau partner a'r cyhoedd.

- Datblygu a gweithredu trefniadau effeithiol ar gyfer cyfnodau ymgynghori ffurfiol ag asiantaethau a phartneriaid lleol a'r cyhoedd, ar gynllunio gwasanaethau a'u cynnal a sicrhau bod unrhyw sylwadau yn bwydo i mewn i bolisïau a'r broses o ddod i benderfyniadau, fel y bo'n briodol.

- Cyfrannu at strategaeth y Cyngor o gynnal perthynas gadarnhaol gyda'r cyfryngau, ymdrin ag ymholiadau ac ymateb iddyn nhw a manteisio ar gysylltiadau cyhoeddus a chyfleoedd yn y cyfryngau fel y bo'n briodol.

**BYDD CYNNWYS Y DDOGFEN YMA YN CAEL EI ADOLYGU O BRYD I'W GILYDD GAN YMGYNGHORI Â DEILIAD Y SWYDD. MAE'N BOSIBL Y BYDD DISGRIFIADAU SWYDDI YN NEWID YN SGIL HYNNY.**

Cyflawni unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau rhesymol eraill sy'n gymesur â'r swydd ar gais y Prif Weithredwr neu yng ngoleuni cyfle cytûn i ddatblygu'n broffesiynol.

Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch y Cyngor ac ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau iechyd a diogelwch perthnasol yn unol â threfniadau lleol.

Rhoi cymorth i'r Cyngor chwarae ei ran i fynd i'r afael â'r Newid yn yr Hinsawdd ac i gyrraedd ei dargedau Lleihau Carbon ar draws yr holl wasanaethau y mae'n eu darparu a hefyd o ran y nwyddau a'r gwasanaethau hynny y mae'n eu prynu neu eu comisiynu gan sefydliadau eraill.

Mae gan bob aelod o staff ran werthfawr a hanfodol i'w chwarae i gadw pobl yn ddiogel. Mae cyfrifoldeb ar unrhyw berson sydd â phryderon ynghylch diogelwch plentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, NEU ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn neu oedolyn sy'n agored i niwed, i roi gwybod am hyn ar unwaith. Dylid gwneud hyn trwy Reolwr Llinell yr unigolyn, yr Arweinydd Diogelu Dynodedig neu gysylltu â Hwb Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf.

## MANYLEB PERSON

Mae'r fanyleb yma'n nodi gwybodaeth a/neu gymwysterau, profiad yn y gorffennol, a chymwyseddau personol, a fyddai'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma.

Mae'r adrannau **Gwybodaeth/Cymwysterau a Phrofiad** yn disgrifio'r gallu technegol sy'n angenrheidiol er mwyn gwneud y swydd yma'n llwyddiannus.

Mae'r adran **Cymwyseddau** yn disgrifio'r mathau o sgiliau (heb fod yn dechnegol), y galluoedd, a'r nodweddion personol, a fyddai gan y person sy'n ddelfrydol ar gyfer y swydd benodol yma. Mae'r cymwyseddau yn disgrifio sut byddai'r person hwnnw, yn ddelfrydol, yn gweithio gyda phobl eraill a sut y byddai'n ymgymryd â'i gyfrifoldebau.

Mae'r adran **Amodau Arbennig a Gofynion Proffesiynol** yn disgrifio unrhyw briodoleddau eraill sy'n briodol i'r amgylchiadau penodol a fo'n ymwneud â'r swydd yma.

| PRIODOLEDD | ***HANFODOL*** | **DYMUNOL** |
|---|---|---|
| **GWYBODAETH / ADDYSG** | • Gradd neu gymhwyster cyfwerth<br>• cymhwyster proffesiynol perthnasol<br>• Gwybodaeth am y fframwaith deddfwriaethol a rheoleiddiol<br>• Gwybodaeth fanwl am y meysydd perthnasol ar gyfer cynnal gwasanaeth<br>• Dealltwriaeth o'r cyd-destun gwleidyddol ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. | • Dealltwriaeth o reoli newid, cysyniadau busnes a masnachu. |
| **PROFIAD** | • profiad helaeth o gynnal gwasanaeth mawr, ar lefel Prif Swyddog neu lefel gyfwerth<br>• profiad helaeth o weithio'n agos ag Aelodau Etholedig neu'r gallu i ddangos y byddwch chi'n effro i faterion o sensitifrwydd gwleidyddol yn gyflym<br>• profiad sylweddol o arwain a chyflawni newid yn llwyddiannus mewn sefydliad mawr neu gymhleth<br>• rheoli cyllidebau mawr a chymhleth yn llwyddiannus<br>• llunio strategaethau corfforaethol a chyfrannu atyn nhw<br>rheoli cysylltiadau cyflogaeth yn llwyddiannus | • ymdrin â'r cyfryngau mewn perthynas â materion sensitif<br><br>• cynllunio gwasanaeth a busnes, gan gynnwys adolygu gwasanaeth a defnyddio Cytundebau Lefel Gwasanaeth |

**Sgiliau Cymraeg:**

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| Cymraeg Lefel 1 ☒<br>*Bydd yn ofynnol i bob gweithiwr ymgymryd â rhaglen sefydlu Iaith Gymraeg sylfaenol i gyrraedd y lefel yma*<br>Cymraeg Lefel 2 ☐<br>Cymraeg Lefel 3 ☐ | Cymraeg Lefel 2 ☐<br>Cymraeg Lefel 3 ☐<br>Cymraeg Lefel 3-5 ☒<br>Cymraeg Lefel 4 ☐<br>Cymraeg Lefel 5 ☐ |

Cymraeg Lefel 3-5 ☐
Cymraeg Lefel 4 ☐
Cymraeg Lefel 5 ☐

I gael manylion ynglŷn â'r lefelau, bwriwch olwg ar y Canllaw Sgiliau Iaith Gymraeg ar-lein: www.rctcbc.gov.uk/SgiliauCymraeg.

**Y sgiliau byddwch chi'n eu defnyddio yn y gweithle:**

| **CYMWYSEDDAU** | |
|---|---|
| **1. Datblygu a Chymell Pobl** | **Ysbrydoli eraill trwy fod yn angerddol a brwdfrydig. Meddu ar agwedd gadarnhaol sy'n canolbwyntio ar weithredu, ac yn grymuso pobl trwy roi'r lle, rhyddid, hyblygrwydd ac ymddiriedaeth, ble y bo'n addas.** |
| **2. Gweithio'n rhan o bartneriaeth ac mewn carfan.** | **Meithrin perthnasau parhaus, cadarnhaol ac adeiladol gydag amrywiaeth o bobl ac yn edrych am gyfleoedd i wella darpariaeth y gwasanaeth o hyd trwy weithio gyda meysydd gwasanaeth eraill a thu hwnt i'r Cyngor.** |
| **3. Cyfathrebu'n Effeithiol** | **Arddangos cyfathrebu agored, onest a chyson gyda'r rheiny sydd efallai ei angen, gan addasu ei ddull a'i iaith ar gyfer grwpiau o bobl wahanol e.e. cwsmeriaid, Cynghorwyr, staff. Cyfathrebu'n gynnar er mwyn rhoi sylw i 'bethau annisgwyl' a allai godi ymlaen llaw** |
| **4. Arwain Newid** | **Deall ac yn croesawu'r angen am newid ac yn ymateb yn gadarnhaol i agenda moderneiddio. Cefnogi dulliau arloesol gan gynnig strwythurau a fframweithiau addas, ac yn derbyn cyfrifoldeb gan ymgymryd â rôl 'capten y garfan'.** |
| **5. Gweithio'n strategol** | Gyrru blaenoriaethau strategol sy wedi'u seilio ar wir angen a gwaith dadansoddi data cytbwys yn eu blaenau. Bod yn effro i faterion sy'n dod i'r amlwg, tueddiadau a goblygiadau, yn gwerthfawrogi'r rhesymau dros ddod i benderfyniadau ac yn eu hystyried nhw yng nghyd-destun ehangach ei wasanaeth a'r Cyngor. |
| **6. Rheoli Adnoddau** | Datblygu ffyrdd creadigol a gwahanol iawn o gynnal gwasanaethau o'r radd flaenaf gyda llai o adnoddau (Cynllunio'r Gweithlu), ac yn dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd heb gyfaddawdu ar y gwasanaeth sy'n cael ei gynnal (Cynllunio'r Gweithlu). Bod yn gadarnhaol ynglŷn â'r hyn mae modd ei gyflawni gyda'r adnoddau sydd ar gael (Cynllunio'r Gweithlu). |
| **7. Sicrhau Canlyniadau** | **Deall beth ydy goblygiadau metrigau cyflawniad mewn cyd-destun ehangach. Blaenoriaethu er mwyn cael y gorau o'r amser sydd ar gael. Gallu gwneud penderfyniadau anodd Adolygu deilliannau er mwyn gwneud gwelliannau a dysgu yn sgil camgymeriadau.** |

| | |
|---|---|
| **8. Gwybodaeth ac Ymwybyddiaeth Wleidyddol** | Deall sut mae penderfyniadau gwleidyddol yn cael eu gwneud ac yn effro i sensitifrwydd gwleidyddiaeth. Cynnal gwrthrychedd nad yw'n wleidyddol. Rhoi cymorth i wleidyddion i weld y darlun strategol ehangach wrth ddod i benderfyniadau. Achub ar y cyfle i gryfhau cysylltiadau â gwleidyddion a rhannu gwybodaeth. |
| **AMODAU ARBENNIG A GOFYNION PROFFESIYNOL** | Y modd i deithio yn annibynnol ar hyd a lled y Fwrdeistref Sirol er mwyn bodloni gofynion y swydd. |

### 3.3 CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Bydd y Cyngor yn darparu cyfleoedd cyfartal i bawb er mwyn i bob aelod o staff deimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi a bod cyfle iddyn nhw gyflawni eu potensial. A chithau'n aelod o Uwch Garfan y Rheolwyr, dylech chi gefnogi ein gwerthoedd a'n hymrwymiad sef:

- Rydyn ni'n cydnabod bod rhaid i ni arwain newid a bod yn ddewr er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau'r dyfodol o ran ein staff a chymunedau.
- Byddwn ni'n creu amgylchedd gwaith diogel er mwyn i bobl 'fod yn nhw eu hunain', gwybod bod modd iddyn nhw sôn am bryderon a byddwn ni'n gwrando arnyn nhw, a gwybod ein bod ni'n gefn iddyn nhw.
- Byddwn ni'n cyfathrebu'r sail dros wneud penderfyniadau fel bod pobl yn deall pam rydyn ni wedi cymryd camau a dod i benderfyniadau penodol.
- Byddwn ni'n gweithredu er mwyn cefnogi profiadau a chynnydd o ran gyrfaoedd ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, ac i gefnogi pawb i ddeall manteision cydraddoldeb i bawb.
- Rydyn ni'n cydnabod bod profiadau pawb yn wahanol, a byddwn ni'n meithrin diwylliant sy'n sicrhau bod pawb yn cael profiadau gwych.
- Byddwn ni'n herio ymddygiad sy'n peri niwed neu'n tanseilio pobl, a bydd goblygiadau clir ar gyfer ymddygiad sydd ddim yn bodloni safonau'r sefydliad.
- Rydyn ni'n ymrwymo i wrando ar brofiadau pawb ac i geisio eu deall. Byddwn ni'n cefnogi staff ac yn gwrando arnyn nhw wrth iddyn nhw amlinellu'r diwylliant maen nhw am ei weld.

Mae gan y Cyngor garfan benodol ar gyfer ymdrin â materion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Mae'r garfan yn delio â pholisïau corfforaethol a strategaethau megis y Polisi Cyfleoedd Cyfartal, Polisi Urddas yn y Gwaith, a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Yn ogystal â hyn, mae'r garfan yn gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i geisio gwireddu addewid y Cyngor i sicrhau cydraddoldeb i bawb

Hoffech chi gael gwybod rhagor ynglŷn â'r gwaith rydyn ni'n ei wneud? Ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529 neu e-bostio: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk

## 4. AMSERLEN Y BROSES BENODI

| | | |
|---|---|---|
| **DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU** | **5 Ionawr 2026**<br><br>***Byddwn ni'n cysylltu â'r ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y Rhestr Fer erbyn 9 Ionawr 2026*** | |
| **CANOLFAN ASESU** | **DIWRNOD 1**<br><br>**14 Ionawr 2026** | |
| | **DIWRNOD 2**<br><br>**15 Ionawr 2026** | |

## 5. PAM GWEITHIO I GYNGOR RHONDDA CYNON TAF?

Cyngor Rhondda Cynon Taf yw un o'r awdurdodau lleol mwyaf yng Nghymru. Dyma ein delfryd ar gyfer Rhondda Cynon Taf: "Mae modd i bob person, cymuned a busnes dyfu a byw mewn Bwrdeistref Sirol iach, gwyrdd, diogel, bywiog a chynhwysol lle mae modd iddyn nhw gyflawni eu llawn botensial ym mhob agwedd ar eu bywydau a'u gwaith, nawr ac yn y dyfodol."

Trwy weithio i ni, bydd eich cyfraniad yn gwneud gwahaniaeth er gwell yn ein cymunedau.

Rydyn ni wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith cynhwysol sy'n rhoi boddhad, ac sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd a'n blaenoriaethau.

Rydyn ni'n darparu rhaglenni sefydlu, hyfforddi a datblygu rhagorol i'ch helpu i dyfu yn eich swydd a'ch gyrfa. Byddwch chi'n cael eich herio a'ch cefnogi trwy gyfleoedd newydd i feithrin sgiliau newydd a throsglwyddadwy wrth ichi wneud gwahaniaeth.

**Llesiant a Chydbwysedd Gwaith-Bywyd**

Yn ein Strategaeth Llesiant y Gweithlu gynhwysfawr, sy'n cydnabod y nifer o elfennau sy'n dylanwadu ar lesiant cyffredinol. Rydyn ni'n cynnig ystod eang o fuddion a gwasanaethau cymorth i'ch helpu i ffynnu yn y gweithle.

Bydd modd i chi gael ystod eang o fuddion staff gan gynnwys Aelodaeth **Hamdden am Oes** am bris gostyngol, Cerdyn 'Vivup' i gael gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a gwasanaethau, cynllun Beicio i'r Gwaith a chynllun prynu technoleg.

Rydyn ni'n comisiynu **Rhaglen Cymorth i Weithwyr** sy'n rhoi modd i gael cymorth ynglŷn â lles 24/7 yn ogystal â chyfoeth o adnoddau ar-lein gan gynnwys llyfrau gwaith hunangymorth, podlediadau ac asesiadau iechyd.

Mae'n **cynllun pensiwn** ni yn cynnig buddion cystadleuol, gydag arbedion ariannol ychwanegol i'w cael gyda gostyngiadau ar gannoedd o gynhyrchion a thechnoleg a chynlluniau prynu ceir sy'n darparu ffyrdd ychwanegol o reoli cyllid personol, i gyd ar gael drwy'r wefan **buddion staff**. Mae cyfleoedd pellach i hybu lles ariannol drwy ddysgu mwy yng ngweithdai **Salary Finance**.

Yn ogystal â hynny, rydyn ni'n cefnogi cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith drwy bolisïau hyblyg sy'n addas i deuluoedd ynghyd â chynnig gwyliau blynyddol hael, gan ddechrau ar 26 diwrnod (pro rata) yn codi i 31 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth (35 diwrnod i Brif Swyddogion), ynghyd ag 8 gŵyl gyhoeddus a'r opsiwn i brynu gwyliau blynyddol ychwanegol (hyd at 10 diwrnod pro rata). Mae ein gweithle cynhwysol hefyd yn dathlu amrywiaeth gyda nifer o rwydweithiau staff gan gynnwys Rhwydwaith y Cynghreiriaid, Rhwydwaith Anabledd a Chynhalwyr, 'Perthyn'

(rhwydwaith LHDTC+) a Sbotolau ar gyfer staff Du, Asiaidd, a staff sydd o grwpiau ethnig lleiafrifol.

**Edrychwch ar ein tudalennau gyrfaoedd i gael rhagor o wybodaeth am weithio i ni.**

## 6. BYW YN RHONDDA CYNON TAF

### Lleoedd ac Atyniadau

Mae gan Rondda Cynon Taf lawer i'w gynnig, p'un a ydych yn chwilio am ddiwylliant, hanes, siopa, chwaraeon neu gyfleoedd hamdden. Mae amrywiaeth enfawr o weithgareddau ar y stepen drws.

### Treftadaeth

Mae i'r rhanbarth ddigon o amgueddfeydd a safleoedd treftadaeth i'w hymweld â nhw. Mae Taith Pyllau Glo Cymru, ym Mharc Treftadaeth Cwm Rhondda yn Nhrehafod, yn rhoi cyfle i chi gael blas ar hynt a helynt y diwydiant glo yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn ogystal â'i dranc. I gael gwybod rhagor am hanes Pontypridd, galwch heibio i Amgueddfa Pontypridd, sydd wrth ymyl y bont fwa, a gafodd ei hadeiladu ym 1756. Efallai bydd y sawl ohonoch chi sy'n ymddiddori mewn hanes yn hoffi dod i wybod rhagor am yr Anthem Genedlaethol, Hen Wlad fy Nhadau, a gafodd ei chyfansoddi yma ym 1856. Mae cofgolofn sy'n dathlu hyn ym Mharc Ynysangharad, Pontypridd.

### Yr Awyr Agored

Os ydych yn hoff iawn o gerdded, cefn gwlad, golygfeydd godidog a dringo mynyddoedd, does unman yn debyg.  Nid dim ond cerddwyr fydd yn mwynhau ein golygfeydd ysblennydd ni. Rydyn ni hefyd yn darparu ar gyfer y sawl ohonoch sy'n hoff o fwynhau'r awyr agored yn fwy hamddenol.  Ger Aberdâr, mae Parc Gwledig Cwm Dâr, llecyn hardd a hawdd ei gyrraedd yng nghanol Cymoedd y De.

Mae rhai o briffyrdd uchaf y Deyrnas Unedig yn Rhondda Cynon Taf, gyda lleoedd i'w cael ar gopaon Mynydd y Bwlch a'r Rhigos i fwynhau golygfeydd godidog o'r Bannau Brycheiniog a'r môr. Mae rhannau o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn Rhondda Cynon Taf. Mae'r ardal odidog sy'n gorwedd ar ochr ddeheuol y prif gopaon

yn ymestyn tua'r gorllewin i diroedd calch ar flaenau Hepste a Mellte. Mae modd i chi hyd yn oed gerdded i Bowys ar hyd llwybr sy'n mynd y tu ôl i'r rhaeadr hardd 100 troedfedd o uchder, Sgwd yr Eira.

I'r rhai sy'n mwynhau antur, mae cyfle i ymwelwyr ymgolli ym mhrofiad Zip World. Yn gartref i Phoenix a’r Tower Coaster, Zip World Tower yw’r 4ydd safle Zip World i’w agor, a dyma’r 1af yn Ne Cymru. Yn swatio ym mynyddoedd y Rhigos, gyda golygfeydd panoramig godidog, mae'r ganolfan antur yma ar safle glofaol hen Lofa'r Tŵr ac wedi rhoi bywyd newydd i'r safle hanesyddol yma, sy'n boblogaidd iawn. Phoenix yw'r llinell zip gyflymaf yn y byd sydd â seddau, gyda 4 llinell gyfochrog mewn 2 barth zip ar wahân. Bydd modd i chi hedfan ar draws cefn gwlad Cymru ar y llinell zip yma. Y Tower Coaster yw'r unig un o'i fath yn Ewrop, ac mae ganddo gert ochr-yn-ochr, sy'n ei gwneud hi'n bosibl i ddau berson ei fwynhau'r ar unwaith.

Gall ymwelwyr hefyd fwynhau Parc Beiciau Disgyrchiant Teuluol Cwm Dâr sef yParc Beiciau Cyntaf yn y DU i deuluoedd, yn cynnwys llwybrau glas treigladwy gyda lifft a llogi beiciau. Yntau ymMharc Gwledig Cwm Dâr, Mmae gan Barc Beiciau Cwm Dâr yn Aberdâr, De Cymru filltiroedd o lwybrau traws gwlad gradd las wedi’u cynllunio ar gyfer teuluoedd anturus ar rheiny sy'n dechrau neu sydd â rhywfaint o allu, yn eu plith. Mae yna hefyd dri thrac pwmpio hwyl ar draws y parc beiciau sy'n darparu digon o opsiynau ar gyfer eich ffordd tua'r gwaelod. Fodd bynnag, y gwasanaeth lifft effeithlon iawn o'r gwaelod yn ôl i ben y llwybr sy'n gwneud byd o wahaniaeth - gallwch chi wneud y mwyaf o'r hwyl a sbri.

**Chwaraeon**

Mae Clwb Rygbi Pontypridd yn enw cyfarwydd bedwar ban byd. Fodd bynnag, mae sawl clwb rygbi arall yn yr ardal sy'n darparu ar gyfer pob grŵp oedran, gan ddechrau gyda phlant dan 7 oed hyd at dimoedd hŷn. Rydyn ni wedi buddsoddi'n sylweddol er mwyn adnewyddu a gwella nifer o'n canolfannau chwaraeon a champfeydd. Mae yna ystod o glybiau chwaraeon megis pêl-droed, pêl-rwyd a bocsio yn Rhondda Cynon Taf sy'n darparu ar gyfer pob chwaeth. Mae'r Cyngor hefyd wedi buddsoddi'n sylweddol mewn caeau 3G, er mwyn sicrhau bod modd i drigolion gymryd rhan mewn chwaraeon ym mhob tywydd, a thrwy gydol y flwyddyn.

**Siopa a mwynhau**

Mae amrywiaeth o siopau yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys siopau celf a chrefft, siopau mawr y trefi, parciau manwerthu, marchnadoedd traddodiadol a manwerthwyr annibynnol. Mae'r ganolfan siopa yn Nhonysguboriau yn hwylus hefyd, lle byddwch chi'n gweld llawer o'r siopau cadwyn mawr.

Os yw'r celfyddydau a'r theatr yn mynd â'ch bryd, mae Theatr y Colisëwm yn Aberdâr a Theatr y Parc a'r Dâr yn Nhreorci. Mae'r Cyngor hefyd yn adfywio Canolfan Gelf y Miwni ym Mhontypridd er mwyn ei thrawsnewid yn ganolfan ar gyfer y celfyddydau perfformio ac adloniant yn ne Cymru. Rhaid galw heibio i'r Tŷ Model yn Llantrisant, sef un o drefi hynaf Cymru. Dyma'r hen dloty (neu wyrcws) yn wreiddiol. Bellach, mae'n ganolfan cynhyrchu, arddangos a gwerthu crefftau o bob math.

**Gwybodaeth gyffredinol**

Mae Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cynnwys tair rhan – Cwm Cynon, Cwm Rhondda ac ardal Taf-elái. Ac yntau yng nghanol Cymoedd y De – i gyfeiriad y gogledd o Gaerdydd, rhwng Bannau Brycheiniog a thraffordd yr M4 – dyma'r awdurdod lleol mwyaf ond dau yng Nghymru, gyda thua 240,000 o bobl yn byw mewn 424 o filltiroedd sgwâr. Roedd y diwydiant glo wedi arwain at dwf mawr yn yr ardal, ond mae newid mawr ar fyd yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r pyllau glo wedi hen fynd. Heddiw, mae ystod o dirweddau yn weddill. Mae Cymru'n frith o gymoedd, ond chewch chi ddim cymaint o falchder, angerdd a chroeso cynnes yn unman arall.

**Tai**

Mae amrywiaeth eang o dai ar gael yn Rhondda Cynon Taf, gan gynnwys dewis o lety am bris rhesymol a thai mawr dethol. Er bod prisiau tai wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae prisiau tai yn parhau i fod yn gystadleuol iawn yn Rhondda Cynon Taf o'u cymharu ag ardaloedd eraill ledled y Deyrnas Unedig.

**Teithio**

Mae Rhondda Cynon Taf yn cynnig gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus ragorol. Mae'r rhanbarth yng nghanol rhwydwaith rheilffordd Cledrau'r Cymoedd, a bydd creu Metro De Cymru yn gwella'r seilwaith rheilffyrdd yn sylweddol ac yn lleihau'r amser teithio. Bydd gwasanaethau rheilffyrdd amlach, gyda 24 trên yr awr yn mynd trwy orsaf Pontypridd.

Mae'r rhwydwaith ffyrdd hefyd wedi newid llawer, gyda phrosiectau mawr yn mynd rhagddo i wella amseroedd teithio a lleihau tagfeydd traffig. Mae Rhondda Cynon Taf yn agos i draffordd yr M4, ac mae cyrraedd Caerdydd a thu hwnt yn hawdd. Mae'r A465, sef Ffordd Blaenau'r Cymoedd, yn ei gwneud yn hawdd cyrraedd canolbarth Lloegr hefyd. Rydyn ni am annog cerdded a beicio yn Rhondda Cynon Taf ac rydyn ni o'r farn y bydd cyflwyno'r arferion yma i'r drefn feunyddiol yn cyfrannu at wella iechyd y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd ar yr un pryd.

**Porth i weddill Cymru**

Lle bynnag y boch yn Rhondda Cynon Taf, byddwch chi bob amser o fewn cyrraedd hawdd i Gaerdydd, diolch i rwydwaith o briffyrdd a rheilffyrdd ardderchog. Ym mhrifddinas Cymru, mae modd i chi fwynhau amgylchedd diwylliannol cyfoethog ac amrywiol, mewn llefydd fel y Theatr Newydd, Canolfan Dewi Sant ac Arena Motorpoint Caerdydd. Mae hefyd Stadiwm y Principality, sy'n cael ei hystyried gan nifer o bobl yn un o leoliadau chwaraeon ac adloniant gorau'r byd. Ynghyd â gemau rygbi a phêl-droed rhyngwladol, mae'n cynnal rhai o sêr mwyaf y byd cerddorol. Mae Castell Caerdydd wrth galon y ddinas, ac mae'n meddu ar bron i 2,000 o flynyddoedd o hanes. Mae'r castell ymhlith prif atyniadau treftadaeth Cymru ac mae arwyddocâd rhyngwladol yn perthyn iddo.

Mae hefyd Ddatblygiad Glanfa Mwyaf Ewrop ym Mae Caerdydd. Mae llyn enfawr o ddŵr croyw wedi ei drawsnewid gan Forglawdd Caerdydd sy'n cronni Afon Taf ac Afon Elái. Mae Bae Caerdydd yn gartref i nifer o atyniadau fel Canolfan Wyddoniaeth Techniquest (delfrydol ar gyfer yr holl deulu), Crefft yn y Bae, adeilad hanesyddol y Pierhead, y Senedd (adeilad Senedd Cymru), Canolfan Gelfyddydau'r Eglwys Norwyaidd, Canolfan Mileniwm Cymru (theatr a lleoliad celfyddydau o'r radd flaenaf), ac amrywiaeth enfawr o dai bwyta a bariau.

Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn ymestyn 14 milltir o'r Barri i Borthcawl. Gyda chlogwyni serth, cildraethau unig a golygfeydd aruthrol, mae'r Arfordir Treftadaeth yn angenrheidiol ar gyfer cerddwyr, beicwyr neu unrhyw un sydd wrth ei fodd yn y wlad. Mae trefi braf, pentrefi bychain a milltiroedd o lwybrau cerdded a lonydd gwledig ar hyd yr arfordir cyfan. Rydych chi hefyd yn agos at Benrhyn Gŵyr, sy'n hardd ac yn berffaith. Mae nifer o nodweddion hanesyddol ar hyd ardal sydd ond yn un filltir ar bymtheg o hyd a saith milltir o led.

Does rhyfedd bod y penrhyn caeedig, sydd wedi ei amgylchynu gan Fôr Hafren a Chefnfor Iwerydd, wedi dod yn hafan i gyfoeth o fywyd gwyllt a chynefinoedd mwyaf amrywiol y Deyrnas Unedig. Ar hyd tirwedd y Gwŷr mae atgofion hanesyddol o'r gorffennol, o gestyll, eglwysi canoloesol, caerau'r Oes Haearn a meini hirion cynhanes.  A'r cyfan yn erbyn cefnlen ryfeddol o fryniau, cymoedd, traethau, clogwyni, cytiroedd, coedwigoedd, twyni, corsydd ac ogofâu.